

‘POBUN Â’I LAIS . . . POBUN Â’I LE’—WALDO WILLIAMS: BARDD PLANT CYMRU

Yn y lle cyntaf, diolch am y gwahoddiad i draddodi Darlith Goffa G. J. Williams am 2013, a hynny ar drothwy Gŵyl Llenyddiaeth Plant Cymru. A diolch, felly, am esgus i gael treulio ychydig rhagor o amser yng nghwmni Waldo Williams, a’r tro hwn, am esgus i gael pori yn y gyfrol, *Cerddi’r Plant*, sef y casgliad cyntaf o’i waith i weld golau dydd.¹

Y flwyddyn yw 1936. Y mae Waldo Goronwy Williams yn 32 mlwydd oed. Y mae wedi graddio er 1926 ac wedi bod yn dysgu mewn ysgolion cynradd ar hyd a lled sir Benfro er 1928. Nid yw’r Ail Ryfel Byd eto wedi torri ei arswyd arno. Nid yw wedi priodi (gwnaeth hynny yn 1941), ac nid yw, felly, wedi dioddef yr ergyd fawr o golli Linda ei wraig. Nid yw wedi mynd yn Grynwr na sefyll dros y Blaid (profiadau’r 1950au oedd y ddeubeth hynny). Nid yw wedi cael ei garcharu am ei safiad yn erbyn rhyfel Corea (1960 ac 1961). Ac nid yw wedi cyhoeddi *Dail Pren*—bydd raid aros ugain mlynedd wedi cyhoeddi *Cerddi’r Plant* cyn gweld y gyfrol werthfawr honno’n dod o’r wasg. Ond y mae wedi byw drwy’r Rhyfel Byd Cyntaf. Y mae wedi derbyn yr ail iaith, yr iaith Gymraeg, yr ‘iaith a garai’.² Y mae wedi colli Morvydd, ei chwaer a chymar ei chwarae plant. Y mae hefyd wedi bod drwy brofiad ‘y ddau gae’, y profiad ysbrydol, trawsnewidiol a gafodd yn ei laslencyndod, ond nas gwelwyd ei gofnodi nes llunio un o’i gerddi enwocaf oll, ‘Mewn Dau Gae’.³

Dyna’r cefndir bywgraffiadol. Ond cyn mynd ymhellach, carwn nodi fy mod i’n ymwybodol o rai o’r peryglon sydd o’m blaen wrth geisio traethu ar ail osodiad y teitl, ‘Waldo Williams: Bardd Plant Cymru’. Ar y naill law, y mae perygl mewn ceisio rhoi dyn mor fawr mewn categori mor gymharol fach. Fodd bynnag, brysiat i atgoffa’r darllenydd nad fi yw’r cyntaf i roi’r label ‘Bardd Plant’ ar Waldo, ac yn hyn o beth yr wyf mewn cwmni diogel, gyda neb llai na ‘Brenin Llenyddiaeth Plant’, T. Llew Jones, yn cyfeirio ato yn y modd hwnnw yn y gyfrol deyrnged a gyhoeddwyd dan olygyddiaeth Jâms Niclas.⁴ O ran hynny, o fwrw trem ar deitlau ysgrifau nifer o’n hysgolheigion amlycaf, gwelwn fod labeli o bob math wedi eu rhoi yn eu tro ar y bardd. Dyna i chi John Rowlands: ‘Waldo Williams—Bardd y Gobaith Pryderus’;⁵ a J. Gwyn Griffiths: ‘Waldo Williams: Bardd yr Heddychiaeth Heriol’;⁶ neu Bedwyr Lewis Jones: ‘Waldo Williams: Triniwr Daear Dyfed’;⁷ ac Alan Llwyd: ‘Waldo Williams: Bardd Heddwch’.⁸ Siawns nad y label ei hunan yw’r perygl yn gymaint â’r ‘broses

¹ E. Llwyd Williams a Waldo Williams, *Cerddi’r Plant* (Gwasg Aberystwyth, 1936). Dylid nodi i’r ddarlith hon gael ei thraddodi ac i’r fersiwn ysgrifenedig ohono gael ei gyflwyno i’r golygyddion cyn cyhoeddi cyfrol Alan Llwyd, *Waldo. Cofiant Waldo Williams: 1904–1971* (Tal-y-bont, 2014) a chyn cyhoeddi’r golygiad newydd o gerddi Waldo Williams gan Alan Llwyd a Robert Rhys, *Waldo Williams: Cerddi 1922–1970* (Llandysul, 2014). Diolchir i Mrs Eluned Richards am ganiatâd i gyhoeddi gwaith Waldo Williams yn yr erthygl hon.

² ‘Yr Iaith a Garaf’, yn Robert Rhys, *Chwilio am Nodau’r Gân* (Llandysul, 1992), t. 164.

³ Ni ellir bod yn berffaith sicr pryd oedd hyn, ond credir mai’r cofnod cyntaf ohoni yw 1956 pan ymddangosodd yn *Baner ac Amserau Cymru*, 13 Mehefin 1956, t. 7.

⁴ T. Llew Jones, ‘Waldo—Bardd y Plant’, yn James Nicholas (gol.), *Waldo* (Llandysul, 1977), tt. 27–32.

⁵ *Ibid.*, tt. 203–13.

⁶ J. Gwyn Griffiths, ‘Waldo Williams: Bardd yr Heddychiaeth Heriol’, yn Robert Rhys (gol.), *Cyfres y Meistri (2): Waldo Williams* (Abertawe, 1981), tt. 190–201.

⁷ *Ibid.*, tt. 178–85.

⁸ Alan Llwyd, *Stori Waldo Williams: Bardd Heddwch* (Cyhoeddiadau Barddas, 2010).

o labelu', oherwydd digon tebyg fod ei gyfaill W. R. Evans yn llygad ei le wrth iddo ein rhybuddio ni, dros 30 mlynedd yn ôl, rhag 'holhti' Waldo a cheisio ei rannu'n adrannau:

Mae dadansoddi'r dyn mawr hwn, a'r bardd mawr hwn, bron yn amhosib. Roedd yn bersonoliaeth mor gymhleth. Duw a'n gwaredo rhag inni geisio ei holhti a'i rannu yn ddarnau bach dibwys. Efallai mai'r peth tecaf i'w ddweud amdano yw mai Waldo oedd Waldo; gŵr arbennig iawn.⁹

Ar y llaw arall, ceir perygl y 'gor-ddehongli' ac ildio i'r demtasiwn o weld yn y cerddi hyfryd hyn i blant ryw arwyddocâd mawr a chymhlethdod ystyr nas bwriadwyd efallai i fod ynddynt o gwbl.

Ond wedi pwyso a mesur, dyma benderfynu bod manteision mewn wynebu'r ddwy her. O ran y gyntaf, wrth edrych ar Waldo fel 'Bardd Plant' nid fy amcan yw ei *holhti* o gwbl, ond yn hytrach defnyddio'r label fel arsyllfa o'r lle y gallwn geisio cael cip pellach a gwahanol, o bosibl, ar y bardd, a'i weld mewn rhyw oledd o oleuni a allasai ein harwain at amgyffred y dyn cyfan yn well. O ran yr ail berygl, dichon fod rhaid derbyn y ceir yn aml wahaniaeth rhwng 'bwriad' artist a'r 'canlyniad' a amlygir yn y gwaith. Yn fwy na hynny—a dyma paham yn anad dim yr wyf i'n barod i wynebu'r peryglon a nodwyd—o gydnabod dilysrwydd rhybudd W. R. Evans na ellir holhti Waldo (nac undyn arall, dybiwn i), yna teg awgrymu bod, o raid, gnewyllyn yr un weledigaeth ar waith yn y cerddi cynnar hyn i blant ag yn holl gynnyrch arall Waldo. Yr hyn sy'n arbennig o ddiddorol, o gofio eu bod wedi eu cenedlu cyn y profiadau a nodwyd yn y darn bywgraffiadol uchod, yw ein bod ni o bosibl yn y gwaith cynnar hwn, yn dod mor agos ag y gallwn at yr hyn sy'n 'waelodol Waldo'; h.y. yr hyn sydd 'yng ngwreiddyn' ei fod o'r cychwyn cyntaf megis.

Ond cyn bwrw ati go iawn i chwilio am y nodweddion hyn, y mae un sylw cyffredinol yr hoffwn gyffwrdd ag ef parthed dilysrwydd y syniad o 'gategori' arbennig a'i enw 'Barddoniaeth i Blant'. Soniwyd uchod am 'berylon', a charwn awgrymu bod ambell berygl go dwyllodrus yn llechu mewn categori o'r fath. Wedi'r cyfan, ni fyddai neb yn ei iawn bwyll yn dweud, er enghraifft, bod y fath beth yn bod â 'machlud i blant', neu 'sŵn nant yn llifo i blant', neu 'gwefr clywed côr SATB yn canu "Calon Lân" i blant', h.y. y mae'r byd mawr yn cynnig rhai profiadau sydd mor ysgytwol o bur a phrydferth nes eu bod yn apelio yn eu harddwch at bawb. Gellid dweud yr un peth am feysydd syniadau ac athroniaeth. Y mae rhai mor sylfaenol deg nes eu bod yn canu cloch yng nghalon y neb a fedr ymresymu—o'r ieuengaf i'r hynaf. A siawns fod yr un peth yn wir am farddoniaeth. Pan fo cerdd yn wirioneddol hardd, byddwn ni i gyd—'waeth beth yw ein hoedran na'n cefndir, fentra' i ddweud—yn ei chanfod yn hardd. Wrth reswm, y mae chwaeth ac aeddfedrwydd yn chwarae eu rhan yn apêl pob celfyddyd ar begynau'r sbectrwm, pan fydd angen soffistigeiddrwydd profiad i allu gwerthfawrogi cyffyrddiadau amwys, efallai, neu emosiynau serch, neu rai elfennau ar alar, ac yn y blaen. Yn yr un modd, ni ellir dadlau nad oes y fath beth yn bod â diwyg addas i blant (dyluniad, geirfa, etc.). Ond ar ryw lefel gyntefig, y mae'n debyg bod gwir farddoniaeth yn ein cyrraedd ni i gyd, ac yn nwylo'r meistri gall y syniadau cymhlethaf, o'u gwisgo yn y dillad cywir, hefyd ein cyrraedd ni oll. Nid galw am ddiddymu'r syniad o

⁹ W. R. Evans, 'Waldo yn ei Gyfanrwydd', yn Nicholas (gol.), *Waldo*, t. 76.

‘Farddoniaeth i Blant’ a wnafl, ond rhybuddio rhag camddefnyddio’r categori a’i gael yn esgus—yn ôl ffasiwn y dydd—naill ai i fwydo’r plant â dim ond gwamalrwydd ysmala neu ddim ond tywyllwch trwm a diystyr.

Gyda hynny o ragymadroddi felly, dyma agor y gyfrol fach clawr caled, a gyhoeddwyd gan Wasg Aberystwyth, wedi ei hargraffu gan Wasg Gee, Dinbych, ym mis Chwefror 1936. Y teitl yw *Cerddi’r Plant*, y ddau awdur yw E. Llwyd Williams a Waldo Williams, dau gyfaill mynwesol, a’r darlunydd yw D. J. Morris. Rhennir y cynnwys yn gyfartal rhwng y ddau fardd, yn ugain cerdd yr un. Yn y cefn, y mae un tudalen wedi ei neilltuo ar gyfer rhestr eirfa, ac ymddengys fod hynny n dilyn arfer lled gyffredin yn y cyfnod hwnnw mewn cyfrolau i blant. Nid trosi o’r Gymraeg i’r Saesneg a geir yn yr eirfa hon, ond esbonio neu aralleirio yn Gymraeg, yn bennaf ar gyfer gwrthrychau o fyd natur, ac yn aml, mi dybiaf, lle bo gwahaniaethau rhwng iaith y De a’r Gogledd; e.e., cynigir ‘lôn gul’ am ‘feidir’ a ‘Shilicabwd’ am ‘Hen wr’ (yn ogystal â’r esboniad: ‘Llysieuyn blewog yr olwg’). Y mae’n werth craffu ar y rhestr i glywed athrawon da wrth eu gwaith a’u hesboniadau’n fyw. Am ‘Bwyd y llyffant’ meddir ‘Tyfiant ar lun ambrello’, ac am ‘Gwas y neidir’ cynigir ‘Ehediad du a melyn yn debyg i eroplên’. Ddwywaith yn unig y defnyddir y Saesneg, pan yw ‘Clatsh y cŵn’ yn mynd yn ‘Foxglove’, a ‘mefus a mafon’ yn troi yn ‘strawberries and raspberries’. (Tybed pam y ddau yna?) Dim ond dau enw nad ydynt naill ai’n greadur neu’n dyfiant o ryw fath a restrir, sef ‘seld’ lle y cynigir ‘dresel’, a ‘Preseli’ a ddisgrifir yn syml fel ‘Mynydd yn Sir Benfro’. (A dyna un o’r arwyddbyst cyntaf ar drywydd y sylwadau sydd yn dilyn. Yma, yn union ar ddechrau ei yrfa fel bardd, y mae’r Preseli yn cael lle amlwg yn awen Waldo. Ond mwy am hynny yn y man.)

Yn gyffredinol, y mae’r gyfrol yn am-yn-eilio gwaith Llwyd a gwaith Waldo, a heb os, y mae deunydd ymchwil diddorol yng nghyfraniad Llwyd Williams i’r gyfrol—ef wedi’r cyfan oedd ysgogwr y gyfrol, fel y clywn yn y man. Ond yn awr, gan ein bod yn canolbwyntio ar Waldo, dyma nodi teitlau’r cerddi sydd ganddo ef yn y gyfrol, a hynny yn y drefn y maent yn ymddangos.

1. ‘Y Morgrugyn’
2. ‘Bore Nadolig’
3. ‘Chwarae’
4. ‘Y Byd Mawr’
5. ‘Gweithio’
6. ‘Y Llusern Hud’
7. ‘Dynion Sy’n Galw’
8. ‘Y Gotiar’
9. ‘Yr Eco’
10. ‘Y Cymylau’
11. ‘Y Garddwr’
12. ‘Blodyn a Ffrwyth’
13. ‘Y Bws’
14. ‘Pitrans-Patran’
15. ‘Pyslo’
16. ‘Galw’r Gwartheg’

17. 'Enwau'
18. 'Clatsh y Cŵn'
19. 'Y Siop'
20. 'Y Gwynt'

Awgryma trem ar y teitlau'n unig fod Waldo wedi bod yn pori mewn trawstoriad o feysydd i chwilio am ddeunydd. Awn yn ei gwmni i fyd natur—byd y creaduriaid a'r planhigion, byd y gwynt a'r glaw, ond hefyd, byd pobl, yn blant ac yn oedolion. Y mae lle ganddo i waith ac i chwarae, i ddychymyg ac i feddwl, ac nid yw'r dechnoleg fodern na byd busnes hyd yn oed yn ddieithr iddo.

Pe bai rhywun yn dymuno rhannu'r gweithiau hyn yn adrannau o ran traethydd y cerddi, y mae'n debyg mai un amlwg fyddai 'Cerddi'r Person Cyntaf', ac yma byddai'n rhaid nodi tua 16 o'r 20. Yn 'Chwarae' a 'Gweithio' y mae'r 'fi' yn ymuno â Deio a Mair (sef y bachgen a'r ferch a greodd Waldo i gario rhai o'i syniadau yn y gyfrol); yn 'Llusern Hud' y mae'r 'fi' yn ymuno â Deio (ac â Mair hefyd, ond heb ei henwi?); yn 'Dynion Sy'n Galw' a 'Y Gotiar' y mae'r 'fi' yn ddealledig (fan hyn drwy'r cyfeiriad at 'Mam', lle y deallwn mai at fam traethydd y gerdd a gyfeirir, ac felly gallwn amgyffred presenoldeb y traethydd ei hun). Down ar draws Mam eto yn 'Y Garddwr' a 'Y Bws'. Clywn 'fi' yn siarad hefyd yn 'Y Morgrugyn', 'Y Byd Mawr' 'Yr Eco', 'Y Cymylau', 'Blodyn a Ffrwyth', 'Pitrans-Patran', 'Pyslo' a 'Galw'r Gwartheg' (sydd, drwy ddefnyddio'r 'ni' a'r 'chi', yn awgrymu'r 'fi'), a hefyd yn 'Y Siop' (lle y mae'r 'fi' yn ymhlyg yn y 'ni', sydd unwaith eto'n uniaethu â Deio a Mair). Buaswn hefyd yn cynnwys 'Y Gwynt' ac 'Enwau' yn yr adran hon, ond dim ond ar sail un 'chi' (oherwydd os oes llais yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at y darllynydd, yna y mae'n siarad, o raid, o safbwynt person cyntaf, naill ai unigol neu luosog). Buan y gwelir felly fod llais y Bardd yn ymbresenoli yn nifer fawr o'r cerddi ac yn rhoi ei hunan yng nghanol y gyfeillach â'r plant.

Adran amlwg arall fyddai 'Cerddi sy'n Cynnwys y Cymeriadau Deio a Mair', ac yma gwelid 'Chwarae', 'Gweithio', 'Y Llusern Hud', 'Clatsh y Cŵn' ac 'Y Siop'. Pennawd adran bosibl arall, ond un a fyddai'n adran o ddwy gerdd yn unig, yw 'Cerddi sy'n Cyfeirio at Dad', ac yma gwelid 'Y Byd Mawr' ac 'Y Garddwr'. Y mae'r 'Cerddi sy'n Cyfeirio at Mam' yn sicr yn haeddu pennawd, oherwydd clywir sôn amdani hi mewn chwe cherdd: 'Gweithio', 'Y Llusern Hud', 'Dynion sy'n Galw', 'Y Gotiar', 'Y Garddwr' ac 'Y Bws'.

O ran ffurf a mesur, penillion pedair llinell yw'r mwyafrif o ddigon, a'r patrwm odli'n cadw'n syml at 'a, b, a, b,' neu 'aa, bb', ac yn y blaen. Y mae 'Enwau' yn dilyn ei phatrwm ei hunan, gyda phenillion ar yr odl 'a, b, c, c, b'. Y mae 'Y Gotiar' yn ymfalchïo yn ei hodlau a'i honomatopeia, ac yn y pennill cyntaf yn unig rhestrir wyth llinell ar yr odl '-on'. Drwyddi draw, dibynna'r cerddi ar ailadrodd yn gyson i greu effaith ac i helpu cof y plentyn, ac yn 'Y Cymylau' y mae'r gynghanedd yn chwarae ei rhan i'r un diben, y mae'n debyg, a'r trydydd pennill yn drawiadol syml: 'Mor dawel y mordwyai / I borth dan fynydd ban . . .'¹⁰

¹⁰ Y mae'n drawiadol pa mor aml y defnyddia Waldo'r gynghanedd yn ei gerddi 'rhydd' drwyddynt draw i bwysleisio llinell neu ymadrodd. Ceisiais agor y drws i'r cyfeiriad hwn yn *Barddas*, 319 (Haf 2013), 44–5, ond erys llawer rhagor o waith ymchwil o ran yr agwedd hon ar waith y bardd.

Er mor fecanyddol yw gwaith ymchwil caib a rhaw fel hwn, y mae'n ymarfer defnyddiol o ran gwerthfawrogi'r modd trylwyr y mae Waldo'n creu agosatrwydd rhyngddo a'i gynull-eidfa drwy ddefnyddio sain geiriau'n ddeheuig, trwy siarad o brofiad y person cyntaf, a thrwy greu cymdeithas o gydnabod sy'n cynnwys y darllynydd yn uniongyrchol (er, mi warantaf, mai gweithred reddfol yn hytrach na deddfol yw hon ganddo). Os yw'r gwaith categoreiddio'n cymhlethu wrth ystyried themâu, y mae'n werth dal ati er mwyn rhyfeddu at eu gwead tyn, a buan y gwelir bod 'Byd Natur' a 'Chwarae', fel y soniwyd eisoes, yn ogystal â 'Chymdeithas' a 'Chyd-weithio', yn llinynnau aur drwy'r cwbl.

Yn yr un modd, y mae'n werth palu drwy'r llyfryddiaethau i weld beth yn union oedd cynhaeaf barddoniaeth Waldo cyn 1936, a beth ydoedd yn y blynyddoedd yn union wedi hynny, er mwyn gosod y gyfrol hon yn ei chyd-destun o ran awen y bardd. Gan ddibynnu ar waith gofalus B. G. Owens,¹¹ dyma roi blas o'r math ar ysgrifennu a oedd yn mynd â bryd Waldo yn y cyfnod a arweiniodd at gyhoeddi *Cerddi'r Plant* ac yn y cyfnod yn dilyn y cyhoeddiad.

Ar ôl cerddi cynnar iawn fel 'Horeb Mynydd Duw', a ymddangosodd yn *Seren Cymru* yn 1922 (a chyn hynny, cerdd dan y teitl 'Pasg 1916' am Wrthryfel Iwerddon, sef un o'r cerddi cynharaf i gyd), y mae'n hysbys mai un o gerddi cyntaf Waldo, yn sicr y gyntaf i ddod i sylw cenedlaethol o leiaf, yw 'Y Nefoedd', a gyhoeddwyd yn *Baner ac Amserau Cymru* yn 1926.¹² Ynddi disgrifia'r nefoedd fel lle diflas iawn, dim haf na gaeaf, dim cysgu, caru na siarad, ac yna i orffen y dychan â chic fach dwt, cyflwyno'r cwpled hwn:

Os dyna'n Nefoedd wen, a'i gwobor
Am fyw yn dda—wel, diawl, mae'n sobor.

Mae 'Deigryn yr Awen', sy'n tarddu o'r un flwyddyn, yn dilyn yr un wythien:

O fy awen cân mewn dagrau
Collwyd un o saint y sir,
Mrs. Davies, Pant Cilwrnen
Amddiffynnydd mawr y gwir.
Ffyddlon ydoedd Mrs. Davies
Yn y cwrdd a'r Ysgol Sul,
Ow drueni iddi sangu
Ar ben darn o orenj pil.¹³

Hefyd, yn yr un flwyddyn, cafwyd 'Gweddi Cymro' ac yna, flwyddyn yn ddiweddarach, 1927, cyhoeddwyd 'Galw'r Iet', a diolch i Tegwyn Jones a Gwasg Carreg Gwalch am gynnwys hon yn y detholiad o waith Waldo yn y gyfres fach, 'Pigion 2000'.¹⁴ Y mae'n berl o gerdd ac yn eco cynnar ar sawl lefel o 'Yr Eiliad' a ddaw i ni yn *Dail Pren*. Yn 'Galw'r

¹¹ B. G. Owens, 'Gweithiau Waldo Williams', *Y Traethodydd*, Hydref 1971, 309–28.

¹² *Baner ac Amserau Cymru*, 4 Chwefror 1926, 5.

¹³ Rhys, *Chwilio am Nodau'r Gân*, t. 66.

¹⁴ Tegwyn Jones (gol.), *Waldo: Un Fumud Fach*, cyfres Pigion 2000 (Llanrwst, 1998), tt. 57–8.



Iet' y mae Waldo yn erfyn ar y teithiwr talog i oedi a gwranddo ar yr hyn sydd gan yr 'iet' i'w ddweud.

Arhosed damed bach, drafeilwr,
A sugned i wala fan hyn,
Ma'r weninen yn crwydro'n ysbeilwr
Dros flode'r camil gwyn.

Cered lawr trw'r feidir pentigili,
A driched trw'r bwlch yn y claw';
Bydd e'n dewyll os na welith e'r Nefodd
Yn ochor Parc Draw . . .

Arhosed damed bach, drafeilwr. Shwrne to—Hei, drafeilwr!
So'r trafeilwr yn silwi dim.

Ma'r trafeilwr yn 'i gar yn ddyn o fusnes—
Arian, ffortiwn; moethe mowr; pleser pell,
A chlywith e ddim byth o'r iet yn galw,
A gwelith e ddim byth o'r golud gwell . . .

(Er nad yw gofod yn caniatáu trafod y gerdd 'Pyslo' o'r gyfrol i blant, nodaf wrth basio fod cymhariaeth ddiddorol i'w thynnu rhyngddi a'r 'Eiliad' a 'Galw'r Iet'.)

O'r un cyfnod daw 'Yr Iaith a Garaf' a 'Môr o Gân', ac yna y mae'r tair blynedd nesaf yn cynhyrchu ffrwyth awen lawen ac ysgafn. Yn 1928 lluniwyd 'Limrigau', yn 1929 'Barddrin', ac o gynhaeaf 1930 y daeth 'Ymadawiad Cwrcath', 'Mowth-Organ', 'Y Cantwr Coch', 'Yr Uch-Gymro', 'Wrth Helpu i Gario Piano', 'Rhesymau Pam' a 'Te'. (O'r rhain dim ond 'Ymadawiad Cwrcath' a'r 'Mowth-Organ' a gyrhaeddodd *Dail Pren*.) Er mwyn rhoi blas o'r Waldo chwareus wrth ei waith, dyma fe yn canu i'r 'Te':

Trwy'r drws daw chwerthin a thincial llestri
Nos Fercher—nos Fercher—beth sy'n mynd 'mla'n?
Gadewch inni bipo trwy un o'r ffenestri—
Trwy'r drws daw chwerthin a thincial llestri,
O'r annwyl! Mae'r Gild yn cael tê yn y Festri,
A phwy sy fan acw yn ymyl y tân?
Trwy'r drws daw chwerthin a thincial llestri.
O Dai, dere i mewn i weld beth sy'n mynd 'mla'n'.¹⁵

Y mae 1931 yn flwyddyn ddiddorol. Yn ystod hon y daw 'Menywod'—neu 'Benywod (Gorff ac Enaid)' fel oedd ei theitl gwreiddiol yn 'Llawysgrif Hoplas'.¹⁶ Y mae T. Llew

¹⁵ *Y Ford Gron*, Rhagfyr 1930, 17.

¹⁶ Cedwir 'Llawysgrif Hoplas' yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth; gw. B. G. Owens, 'Gweithiau Waldo Williams', am ragor o fanylion.



Jones yn cyfrif ‘Menywod’ yn un o gerddi Waldo i blant. Fodd bynnag, nid yw’n ymddangos yn y casgliad *Cerddi’r Plant*, ac yn sicr y mae naws llawer ‘hŷn’ ar ei hieithwedd hi na’r rhai sydd yn y gyfrol honno. Yn y flwyddyn 1931 caed hefyd ‘Soned i Bedlar’, ‘Yr Hen Allt’, ‘Cofio’, ‘Cwm Berllan’, a’r rhain i gyd yn deitlau cyfarwydd i ni gan iddynt gael eu cyhoeddi yn *Dail Pren*; ond hefyd gwelwyd llunio ‘Hoelion’ a ‘Cwyn Dafydd ap Gwilym yn y Nefoedd’, sy’n ddieithr i’r rhan fwyaf ohonom. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn 1933, caed ‘Y Cloc’, a’r flwyddyn olynol, 1934, ‘Ym Mhenfro’, ‘Sequoya’, ‘Athro Ffasiynol’ ac ‘Y Ddannodd’, ac ni chynhwysir yr un o’r rhain yn *Dail Pren*. Yna, down at 1935 ac awdl fawr ‘Tŷ Ddewi’, awdl sy’n cynnwys cyfran sylweddol o athroniaeth Waldo, a cherdd sy’n amlygu’r meddyliau a’r gwerthoedd sy’n aros gydag ef gydol ei fywyd.

A dyma ni wedi cyrraedd 1936, blwyddyn cyhoeddi *Cerddi’r Plant*.

Ymhen dwy flynedd, yn 1938, ymddangosodd ‘Y Tŵr a’r Graig’, ac o’r flwyddyn honno ymlaen daw toreth o’r cerddi adnabyddus. Yr oedd 1939 yn flwyddyn gynhyrchiol i Waldo: ‘Englynion Meibion Jacob i’r Daten’, ‘Daw’r Wennol yn Ôl i’w Nyth’, ‘Daffodil’, ‘Plentyn y Ddaear’—a ymddangosodd yn wreiddiol fel ‘Plentyn y Ddaear (neu, Polisi’r Rhyfelwyr: “Scorched Earth”)’ yn *Baner ac Amserau Cymru*¹⁷—‘Diwedd Bro’, ‘Dau Gymydog’, ‘Rhodia, Wynt’ ac ‘Arfau’ (nad yw yn *Dail Pren*,¹⁸ ond a oedd yn y llawysgrif a gyflwynwyd yn wreiddiol fel drafft ar gyfer *Dail Pren*). Yn 1940 daeth ‘Brawdoliaeth’ a ‘Carol’ (eto un o’r cerddi a oedd yn y llawysgrif wreiddiol ar gyfer *Dail Pren*) a ‘Fel hyn y bu’. Yna, yn 1941 cafwyd ‘Y Tangnefeddwyr’ ac ‘Yr Hwrdd’.

Awn ni ddim ymhellach am y tro, gan gymryd bod y crynodeb uchod yn ddigon i roi blas ar gyd-destun creadigol y gyfrol yn gyffredinol. Yr ydym eisoes wedi cyffwrdd â’r cyd-destun bywgraffiadol, beth felly am gyd-destun penodol ei chyhoeddi? Llwyd Williams oedd wedi cyflwyno ei gerddi ei hun i Wasg Aberystwyth yn 1935, ond barn Prosser Rhys, pennaeth y wasg, oedd bod angen cyfrol fwy swmpus. A Llwyd mae’n debyg wedi mynd yn hesb o syniadau, trodd at ei gyfaill Waldo am gymorth, ac addawodd yntau lunio rhyw ugain cerdd at yr achos. Y bwriad oedd cael y gyfrol alln erbyn Nadolig 1935. Yn anffodus, pan wawriodd dyddiad cyflwyno’r gwaith i’r wasg, nid oedd yr un gerdd wedi dod gan Waldo. Yn ôl y sôn, bu cryn bwysio arno wedyn, ac fel hyn y mae T. Llew Jones yn cofio’r hanes:

Dywedodd wrthyf ei fod wedi eistedd i lawr droeon i geisio llunio cerdd neu ddwy, ond rywsut, methai â chael pennill ar bapur. Erbyn hyn roedd y peth wedi mynd yn fwrn arno. Ond roedd e wedi addo i’w hen gyfaill, ac ni fynnai fynd yn ôl ar ei air, felly daliodd i feddwl a myfyrio am y peth.¹⁹

Yna, ychydig cyn Nadolig 1935, eto yng ngeiriau T. Llew Jones, disgynnodd ‘gwlyth yr awen ar y bardd’, ac y mae’n nodi bod Waldo wedi dweud wrtho iddo lunio’r ugain cerdd mewn deng niwrnod union, sef o leiaf ddwy gerdd bob pedair awr ar hugain, ac ymddangosodd y gyfrol ym mis Chwefror 1936.

¹⁷ *Baner ac Amserau Cymru*, 17 Mai 1939, 8.

¹⁸ Gwelir hon mewn llawysgrif a enwyd gan B. G. Owens yn ‘Dail Pren 1’, sef profenni tudalen cysodiad cyntaf y gyfrol *Dail Pren*.

¹⁹ Jones, ‘Waldo—Bardd y Plant’, tt. 27–8.

Llugoer fu'r ymateb i'r gyfrol yn ei dydd, a bu'n rhaid aros 19 blynedd cyn yr ail argraffiad yn 1955. Ymddengys fod holl naws y llyfr yn dra gwahanol i'r cyfrolau eraill a anelwyd at blant yn y cyfnod hwnnw. Yn sicr y mae naws llawer iau arno na *Storiau ar Gân* gan Sarnicol (1936),²⁰ neu'r gyfres *Barddoniaeth y Plant* gan Hughes a'i Fab,²¹ a oedd yn gyfres o dri llyfr ac fel pe byddai'n apelio at blant aeddfetach wrth fynd o Lyfr I i Lyfr III. Llyfrau â llun ar y clawr yn unig yw'r rhain, ond er gwaetha'r clawr a'r teitl a datganiad 'Y Detholydd' ar y dechrau sy'n esbonio, 'Ceisiwyd dewis darnau o fewn cylch profiad y plant, gan mai dyma'r unig ffordd iddynt ddyfod o ddifrif i garu barddoniaeth', o'n safbwynt ni ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, ymddengys nad yw byd y plentyn yn cael lle amlwg iawn yn y casgliad. Enghraifft o'r math o beth a gynhwysir ynddynt yw cerdd a welir yn Llyfr II, sef 'Yr Haf' gan Telynog:

Fe gladdwyd tlysni anian
Ym medd y gaeaf du,
Ar gwynt rydd brudd alargan
Mewn oer gwynfanus gri . . .²²

Ac mae Llyfr III yn cynnwys cerdd sy'n ymddangos heddiw, o leiaf, yn weddol anaddas i blant, sef 'Rhieingerdd' John Morris-Jones: 'Dau lygad disglair fel dwy em / Sydd i'm hanwylyd i . . .'²³

Drwy holl gyfres *Barddoniaeth y Plant* gwelwn Ceiriog yn serennu â hen ffefrynnau fel 'Yr Arad Goch',²⁴ ac enw amlwg arall yn y casgliad yw Crwys â cherddi megis 'Y Sipsi'.²⁵ Gŵyr Eifion Wyn yn well na'r rhan fwyaf sut i addasu ei awen ar y daith o Lyfr I i Lyfr III. Yn Llyfr I ceir yr hen ffefryn hwn ganddo sy'n llwyddo i roi'r plentyn yng nghanol yr olygfa drwy ddyfais mor syml â chyflwyno cymeriad 'nain' a chreu pwt o ddeialog felly yn llais y plentyn:

*Y BRIALLU*²⁶
Mi welais heddiw'r bore
Yr aur melynna' rioed;
'Roedd rhai o dan y perthi,
Ac eraill yn y coed;
Pwy, meddwch chwi, a'u collodd
Mewn llwyn, a pherth, a ffos?
Mae nain yn dweud mai'r Tylwyth Teg
Wrth ddawnsio yn y nos.

²⁰ Sarnicol (T. J. Thomas), *Storiau ar Gân* (Gwasg Aberystwyth, 1936).

²¹ 'Y Detholydd', *Barddoniaeth y Plant. Llyfr I* (Wrecsam, [1935]). Er nad oes dyddiad ar y llyfr cyntaf, cyhoeddwyd yn tri llyfr yn 1935; gw. *Y Ford Gron*, 5:6 (Ebrill 1935), 141.

²² *Barddoniaeth y Plant. Llyfr II* (Wrecsam, 1935), t. 37.

²³ *Barddoniaeth y Plant. Llyfr III* (Wrecsam, 1935), t. 36.

²⁴ *Barddoniaeth y Plant. Llyfr II*, t. 28.

²⁵ *Ibid.*, t.9.

²⁶ *Barddoniaeth y Plant. Llyfr I*, t. 16.

Erbyn Llyfr III cyflwynir ei delyneg ‘Cwm Pennant’²⁷ sydd, fel nifer o’r cerddi yn y gyfres hon, yn ailgodi’r cwestiwn a holwyd ar ddechrau’r erthygl bresennol: beth yn union yw ‘cerdd i blentyn’?

Y mae Sarnicol yn rhoi cynfas eang iddo ei hun wrth gyflwyno’i lyfr *Storiâu ar Gân* i ‘Blant Cymru o Bob Oedran’, a gwelir yn fuan mai gwaith uchelgeisiol ydyw, wrth i’r bardd roi ar odl nifer o straeon a chwedlau adnabyddus, gan gynnwys hanes ‘Gwiber Emlyn’, ‘Siôn Cwilt’ a ‘Twm Siôn Cati’. Dyma sut mae ‘Gwiber Emlyn’ yn dechrau:²⁸

Lle crwydra Teifi ar droeog hynt
Ymysg breuddwydion yr oesoedd gynt
Saif Emlyn dref, a gweddill tŵr
Ei chastell hynafol dros y dŵr
Yn taflu ei gysgod, a ch’lomen wen
Heddiw ’n trydar ar ei ben.

Fel y crybwyllwyd eisoes, ffasiwn y dydd oedd cynnwys geirfa neu nodiadau yng nghefn y cyfrolau i blant, ac y mae llyfr Sarnicol a thri llyfr y gyfres *Barddoniaeth y Plant* yn cadw at y drefn honno. Nid felly’r gyfrol arall i blant a ymddangosodd yn 1935, sef *Chwarae a Chân i’r Plant Lleiaf*.²⁹ Gyda lluniau amlach ynnddi, y mae’n debyg mai â rhwng hon a chyfrol Llwyd a Waldo y byddai’r gymhariaeth decaf. Fodd bynnag, ar wahân i’r gwahaniaeth amlwg ei fod yn cynnwys alawon ar sol-ffa i gyd-fynd â rhai o’r darnau, y mae gwahaniaethau sylfaenol rhwng ysbryd detholiad Waldo a’r cerddi yn y casgliad hwn, a chawn gyfle i drafod ychydig rhagor ar hynny yn nes ymlaen.

Wedi sefydlu cefndir y maes yn fras, y mae’n bryd troi at y cerddi eu hunain a dechrau drwy graffu ar dri o sylwadau T. Llew Jones amdanynt, wrth iddo ef gloriannu cyfraniad Waldo yn y maes hwn. Y sylw cyntaf ganddo yw hwn:

Nid oes ym marddoniaeth Waldo i blant ddim moeswersi na ‘siarad-i-lawr â nhw’ o gwbl. Gweld trwy lygad plentyn y mae yn y cerddi i gyd, fel pe bai’r bardd—ar ôl tyfu i oedran gŵr—wedi llwyddo’n wyrthiol i gamu’n ôl i fyd meddwl a dychymyg plentyn. Nid yw hyn yn rhyfeddol gan fod Waldo’n deall plant ac yn eu caru’n fawr iawn. Hefyd, fe ddwedwn i, o’i nabod yn dda, fod rhyw ddarn o’i gyfansoddiad nad oedd erioed wedi gorffen bod yn blentyn.³⁰

Yr ail yw hwn:

Nid yw’r cerddi’n mynd gam y tu allan i’r cylch bach, cyfyng y bodolai Waldo o’i fewn pan yn blentyn. Yn wahanol i Robert Louis Stevenson yn *A Child’s Garden of Verses*—nid oes yma ddim sôn am blant gwledydd eraill (fel yr Esgimo etc.) . . . Yr unig dro y daw’r Byd Mawr (oedd y tu allan i gylch profiad Waldo’n blentyn) i mewn yw pan ddeuai—

²⁷ *Barddoniaeth y Plant. Llyfr III*, t. 43.

²⁸ Sarnicol, *Storiâu ar Gân*, t. 11.

²⁹ Margaret Evans a Huw Fôn Roberts, *Chwarae a Chân i’r Plant Lleiaf* (Lerpwl, 1935).

³⁰ Jones, ‘Waldo—Bardd y Plant’, t. 30.

‘Nwawl Ifan am dro o’r pyllau glo,
A geiriau od fel ‘cwenni’, ‘bachan clên’, a ‘sbo’.’³¹

A’r trydydd sylw yw hwn:

Y rhyfeddod yw na luniodd, hyd y gwyddom, ddim cerddi i blant yn y cyfnod . . . pan oedd yn athro plant cynradd yn Abergwaun. Fe ellid tybio y byddai wedi cyfansoddi nifer o gerddi bach pwrpasol i’w corffori yn ei wersi. Ond ni waeth. Wrth gwrs, yn wahanol i ryw farn sy’n bur gyffredin ymysg y Cymry, ‘dyw hi ddim yn haws llunio cerddi i blant nag i bobl mewn oed.’³²

Yn gryno, y mae T. Llew Jones yn ein hatgoffa fod Waldo nid yn unig ar yr un lefel â’r plant ond ei fod, drwy eu caru, yn cydymdeimlo â hwy, ac felly wrth siarad â hwy ac ysgrifennu ar eu cyfer, yn glynu at fyd ei brofiad ef a phrofiad y plant. (Pwysleisir y diffyg moesoli sydd yn y cerddi, ond onid yw cerddi sy’n ‘pregethu’—‘waeth at bwy yr anelwyd hwy—yn siŵr o fethu, neu’n sicr, methu yn yr hir dymor?) O ran yr ail bwynt a’r cyfeiriad at gwmpawd cymharol gyfyng daearyddiaeth y cerddi, rhaid gochel rhag syrthio i’r fagl o geisio gwahaniaethu’n ymhongar rhwng ‘bardd y byd’ a ‘bardd plwyf’. Onid yw barddoniaeth, fel pob celfyddyd, bob amser yn mynd i fod â’i gwraidd yn y plwyf a’i changhennau yn y byd? A thra bo efallai’r fath beth â ‘cherddi’ plwyfol a chul, go brin bod ‘barddoniaeth’ blwyfol. Yn olaf, y mae T. Llew Jones yn cydnabod nad gwaith ‘hawdd’ mo llunio cerddi i blant, a chlywaf leisiau pawb sydd wedi ceisio troi eu llaw at hyn yn gweiddi: Clywch! Clywch!

Nid yw Amser inni’n was fel y deisyfodd Waldo unwaith, ac felly rhaid bodloni ar ystyried llond dwrn o’r cerddi fel esiamplau o’r cyfanwaith. I’r perwyl hwn, dewiswyd ‘Y Morgrugyn’, ‘Chwarae’, ‘Gweithio’, ‘Enwau’, ‘Pitrán-Patran’ ac ‘Y Gwynt’, gan nodi’r gobaith (sydd o raid yn Feistr) y daw cyfle eto i edrych ar y lleill i gyd, gan gynnwys y tair a gafodd eu gwrthod (a chredaf fod testun ymchwil diddorol yn y fan honno hefyd), yn ogystal â’r tair cerdd ychwanegol y tybia T. Llew Jones eu bod yn ‘gerddi plant’, sef ‘Menywod’, ‘Pa Eisiau Dim Hapusach’, a’r ‘Ci Coch’ (y tair a gyrhaeddodd *Dail Pren*).

Cerdd gyntaf Waldo yn y casgliad yw ‘Y Morgrugyn’.

Y MORGRUGYN³³

Ble wyt ti’n mynd, forgrugyn,
Yn unig, yn unig dy fryd?
Gwelais dy ffrindiau wrth fwlch y waun
Yn gwau trwy’i gilydd i gyd.
Cannoedd o honyn-nhw!
Miloedd o honyn-nhw!
Yn gwau trwy’i gilydd i gyd.

³¹ Ibid., tt. 28–9; daw’r cwpled o’r gerdd ‘Y Byd Mawr’ (*Cerddi’r Plant*, t. 7), lle y mae’r plentyn yn camglywed ac yn tybio mai enw un lle yw ‘Treorcitonypandyaberdâr’.

³² Ibid., t. 30.

³³ Williams a Williams, *Cerddi’r Plant*, t. 2.

Wyt ti ar goll, forgrugyn,
 Ymhell o dy gartref clyd?
 Gâf fi fynd lawr â thi i fwlch y waun
 I ganol dy ffrindiau i gyd?
 Cannoedd o honyn-nhw!
 Miloedd o honyn-nhw!
 Yn gwau trwy'i gilydd i gyd.

Gan ddefnyddio geiriau syml, patrymau cryf ac ail-adrodd gofalus—elfennau hanfodol yn arfogaeth pob athro cynradd gwerth ei halen—dyma ddatgelu ar y dechrau'n deg rywfaent o syniadau 'Waldo: bardd yr oedolion' am drefn cymdeithas ddelfrydol. Egyr drwy dynnu llun syml o forgrugyn ar ei ben ei hun. Â rhagddo wedyn i gymharu hwn â'r darlun mwy cyffredin o'r nythaid o forgrug yn eu holl brysurdeb yn 'gwau trwy'i gilydd i gyd'. Heb bregeth na moeswers, gall beri i'r darlennydd ddirnad mai perthyn i'w gilydd yw stad ddelfrydol holl blant y greadigaeth, ac nid morgrug yn unig. Cawn yn 'Mewn Dau Gae' gyfeiriad at yr union beth: 'Mor agos at ei gilydd y deuem— / Yr oedd yr heliwr distaw yn bwrw ei rwyd amdanom.'³⁴ Felly hefyd yn 'Preseli' wrth iddo ddarlunio'r cymdogion yn torchi llewys er lles ei gilydd adeg y cynhaeaf gwair.³⁵ Clyw 'un llef pedwar llais' ac nid un llef unig. Yn ei glust ef y mae llef yr unigolyn yn creu cytgord o'i roi at y lleisiau eraill. Y mae'r ysfa i gyrraedd adref wedyn—at y fan lle y mae'r lleill—yn thema gref yn ei waith, yn arbennig efallai yn 'Cwmwl Haf', lle y mae traethydd y gerdd wedi crwydro, wedi bod ar goll, ac yn dod yn ôl:³⁶

Trwy'r clais adref os oes adref.
 Swmpo'r post iet er amau.
 Ac O, cyn cyrraedd drws y cefn,
 Sŵn adeiladu daear newydd a nefoedd newydd
 Ar lawr y gegin oedd clocs mam i mi.

Cael dod yn ôl wedi bod ar goll. Wedi bod yn holi'n hir yn y tir tywyll, dod yn ôl at y gymdeithas yw cael ein cyfannu mewn 'cymod a chyflawn we'.³⁷

Un arall o nodweddion pwysig athroniaeth Waldo yw'r modd y mae'n dileu'r ffiniau rhwng yr unigolyn, y 'fi', a gweddill cymdogaeth y byd. Gan ein bod ni wedi sôn am 'Cwmwl Haf', y mae'n werth nodi'r darn ar ddechrau'r pennill olaf ond un, lle y mae'n gofyn fel hyn: 'Pwy wyf i?' ac yn ailadrodd yr un cwestiwn er mwyn tanlinellu'r benbleth: 'Pwy wyf i?', ac wrth chwilio am ateb, dyma a wna:

Estyn fy mreichiau ac yno, rhwng eu dau fôn
 Arswydo meddwl amdanaf fy hun,
 A gofyn gwaelod pob gofyn:
 Pwy yw hwn?

³⁴ Waldo Williams, *Dail Pren*, gol. Mererid Hopwood (Llandysul, 2010), t. 17.

³⁵ *Ibid.*, t. 20.

³⁶ *Ibid.*, tt. 37–8.

³⁷ *Ibid.*, t. 66: 'Brawdoliaeth'.

Daw'r arswyd wrth ddechrau dychmygu'r hunan fel sgerbwdd ar wahân i weddill teulu dyn. Dyna paham y defnyddia ddelwedd fel 'cyntedd' mewn man arall wrth sôn amdano ei hunan. Cofiw'n iddo ddweud fel hyn yn ei soned 'Cymru'n Un': 'Chwiliais drwy gyntedd maith fy mod a chael / Deunydd cymdogaeth.'³⁸ Y cyntedd yw'r ffordd i mewn ac allan; nid ydym ni fel bodau dynol yn derfynau o fewn ein cyrff. Ceir mynegiant enwog o'r un math o syniad yn 'Pa Beth yw Dyn?' lle y mae'n gofyn yn y pennill cyntaf: 'Beth yw byw?' ac yn ateb: 'Cael neuadd fawr / Rhwng cyfyng furiau.'³⁹ Y mae plant y ddaear yn chwalu ffiniau cyfyng eu cyrff ac yn ymestyn ma's i gwmpasu'r greadigaeth fawr i gyd. Yn wir, pe bawn i'n ddigon dewr, buaswn i'n llunio traethawd newydd dan y teitl 'Waldo Williams: y bardd tu chwith allan'. Ystyriwn am ennyd pa mor aml y mae Waldo'n troi'r tu fewn tu fa's. Nodwyd eisoes ddelweddau'r 'cyntedd' a'r 'neuadd fawr rhwng cyfyng furiau'. Beth wedyn, o fynd yn ôl at 'Cwmwl Haf', am y syniad o'r 'tŷ sydd allan ymhob tywydd', neu eto, yn yr un gerdd, 'Ym mhob tywydd diogelwch oedd y tywydd / Caredigrwydd oedd y tŷ'? Siawns mai hwn yw'r un tŷ ag a welwn yn 'Geneth Ifanc', y tŷ 'anweledig a diamser' sydd allan 'ar y copâu hyn' ac sy'n 'gadarnach' oherwydd croesi'r eneth ifanc drwy'r byd hwn.⁴⁰ Awgrymir bod union seiliau'r tŷ hwn yn 'yr wybren eang':

Dyfnach yno oedd yr wybren eang
 Glasach ei glas oherwydd hon.
 Cadarnach y tŷ anweledig a diamser
 Erddi hi ar y copâu hyn.

Yr ydym wedi crwydro gryn bellter o fyd y morgrugyn erbyn hyn, ond wrth ddychwelyd at y casgliad cerddi i blant (a'r rheini, yn ôl ein damcaniaeth ni, yn blant digon ifanc), gwelwn fod rhai o'r syniadau cymhleth hyn a fynegir dipyn ar ôl 1936 eisoes yn codi eu pen mewn sawl man. Yn 'Chwarae' y mae'r hen fyd wedi ei droi tu fewn tu fa's ac â'i ben i waered:

CHWARAE⁴¹

Pan fydd yr haul yn twynnu
 A'r gwynt heb chwythu'n gry',
 Â Mair a fi a Deio bach
 I'r cae i chwarae tŷ.

Mae'r waliau'n rhes o gerrig,
 Mae'r llestri ar y seld;
 Bydd Mair yn feistres trwy'r prynhawn,
 A ninnau'n dod i'w gweld.

³⁸ Ibid., t. 78.

³⁹ Ibid., t. 55.

⁴⁰ Ibid., t. 14.

⁴¹ Williams a Williams, *Cerddi'r Plant*, t. 6.

Os daw ymlaen am gawod,
 A ninnau'n yfed te,
 Rhaid rhedeg mewn i'r storws fach
 A chwarae mynd i'r dre.

Hen sach o flawd yw'r ceffyl,
 Fe fyddwn yno chwap.
 Bydd Mair yn gofyn, 'Siawns am lifft?'
 Cyn dringo lan i'r trap.

Allan yn y cae y mae'r tŷ, a'r tu mewn yn y storws fach y mae'r dref. Y mae'r drefn gymdeithasol wedi ei chwyldroi hefyd, ac y mae meistres pennill dau erbyn pennill pedwar yn cael ei dadorseddu ac yn gorfod gofyn am lifft ar gefn y sach flawd!

Wrth droi'r tudalennau o 'Chwarae' i 'Gweithio' cawn un o'r cerddi bach anwylaf yn y casgliad i'm clust i, ac un sy'n proffwydo llawer elfen o farddoniaeth *Dail Pren*. Gellid dychmygu'r darllenwyr ifainc yn dyheu am gael tyfu'n fawr, a gwyddom wrth dystiolaeth cymdogion fel Mr Vernon Beynon, Fferm y Cross, fod Waldo'r plentyn wrth ei fodd yn helpu ar y tir.

GWEITHIO⁴²

Rhaid imi gwpla chwarae
 Â Deio bach a Mair,
 I arwain pen y ceffyl glas
 Pan ddaw'r cynhaeaf gwair.

Mae hwnnw'n ddigon llonydd,
 'Rwyf finnau bron yn saith;
 O! fel 'rwy'n meddwl am yr haf
 I ddechrau ar fy ngwaith.

Bydd Twm a Dadi'n pitsio,
 A Wil yn llwytho fry,
 A finnau'n gweiddi, 'Wo, Hol' ffas',
 Nes clywo Mam o'r tŷ.

Daw Mam â'r 'stên a'r fasedg,
 A'r lliain dros y lle;
 'Arhoswch, Mair a Deio bach,
 I'r gweithwyr gael eu tē.'

Pa le gwell i chwilio am adlais diweddarach o'r gerdd hon nag yn 'Pa beth yw dyn?'⁴³ Yma y mae Waldo yn mynnu nad oes gwahaniaeth rhwng hamdden a gwaith, neu o leiaf nid

⁴² Ibid., t. 8.

⁴³ Williams (gol. Hopwood), *Dail Pren*, t. 55.

rhwng y mwynhad a geir yn y ddau faes; iddo ef, fel i Dic Jones, ‘mae i orchwyl hwyl o hyd / mae i waith ei esmwythyd’.⁴⁴

Beth yw canu? Cael o'r creu
 Ei hen athrylith.
 Beth yw gweithio ond gwneud cân
 O'r coed a'r gwenith?

Yn nhrefn gymdeithasol Waldo, hawl a braint dynion a menywod yw gweithio a chydweithio; y mae ein gwaith yn rhan o'n hunaniaeth, yn fesur o'n gwerth, a'r mesur hwnnw yn cael ei gyfrifo yn ôl cyfraniad i'r gymdogaeth ac nid yn ôl tâl. Y mae gweithio cytgordus yn rhywbeth sy'n digwydd gyda'r graen, nid yn groes graen. Dyma yw un o drasiediau diwydiant màs, sef bod y gweithwyr (y rhai hynny ohonom sy'n ddigon ffodus i gael gwaith) wedi eu dieithrio o wefr gweld effaith uniongyrchol eu gwaith ar fywydau eu cyd-ddyn. Y mae'r gwaith hefyd yn aml yn dinistrio'r amgylchfyd ac nid yn 'gwneud cân' ohono. Bydolwg Waldo yw un lle y mae pobl yn 'prynu cymorth daear a'u dawn'⁴⁵ nid yn eu hecsploetio, a dyma'r byd a welwn yn chwarae-gweithio Deio a Mair a'r Bardd. Y mae lle i ddadlau fod y gerdd fach seml hon i blant yn cynnig yr un drefn ag a welir drwy'r ffenestr yn 'Preseli', sef trefn y 'cynaeafu a'r cneifio'.

Cof ac arwydd, medel ar lethr eu cymydog.
 Pedair gwanaf o'r ceirch yn cwmpo i'w cais,
 Ac un cwrs cyflym, ac wrth laesu eu cefnau
 Chwarddiad cawraidd i'r cwmwl, un llef pedwar llais . . .

Hon oedd fy ffenestr, y cynaeafu a'r cneifio.
 Mi welais drefn yn fy mhalas draw.
 Mae rhu, mae rhaib drwy'r fforest ddiffffenestr.
 Cadwn y mur rhag y bwystfil, cadwn y ffynnon rhag y baw.⁴⁶

Clywsom eisoes am Mam a'i chlocs yn sefydlu'r ddaear newydd a'r nefoedd ar ddiwedd 'Cwlwm Haf', ac yn 'Gweithio' clywn eto sut y mae sŵn rhwng y plentyn a'r fam yn cyfathrebu dros bellter maith, 'nes clywo Mam o'r tŷ'. Hon yw'r fam sy'n gofalu am bawb yn ddiwahân. Nid oes yr un gwahaniaeth yn ei meddwl hi rhwng gwas a pherchennog; 'gweithwyr' yw pawb. Dyma'r fam sydd yn meddu ar faddeuant ('Mae Maddeuant gyda 'mam'),⁴⁷ yr un â'r enw 'Angharad':⁴⁸

⁴⁴ 'Gwaith', yn Ceri Wyn Jones (gol.), *Cerddi Dic yr Hendre: Detholiad o Farddoniaeth Dic Jones* (Llandysul 2010), t. 172.

⁴⁵ Williams (gol. Hopwood), *Dail Pren*, t. 14: 'Geneth Ifanc'.

⁴⁶ *Ibid.*, t. 20.

⁴⁷ *Ibid.*, t. 31: 'Y Tangnefeddwyr'.

⁴⁸ *Ibid.*, t. 32: 'Angharad'.

Dros lawer y pryderai
 Liw nos, a chydlawenhâi,
 Synhwyrô'r loes, uno â'r wledd,
 Yn eigion calon coledd.
 I'w phyrth deuai'r trafferthus
 A gwyddai'r llesg ddôr ei llys.
 Gŵn sgarlad Angharad oedd
 Hyd ei thraed, o weithredoedd.

Ai gor-ddehongli yw hyn? Ai cyfeiliornus yw honni bod *Cerddi'r Plant* yn eu symlrwydd gwaelodol yn codi cwr y llen yn gynnar ar athroniaeth cerddi diweddarach ac awen aedd-fetach Waldo? Ni chredaf. Am na ellir 'hollti' Waldo, yr un yw'r weledigaeth yn y cerddi hyn i blant ag yn ei holl gynnyrch i oedolion. Yn yr un modd, am na ellir 'hollti' Waldo, nid oes pwrpas gosod "Cofio" yn erbyn "Cwmwl Haf", y cerddi plant yn erbyn y cerddi "tywyll".⁴⁹ Y mae'r amrywiaeth yn rhan annatod ohono, a'r cyfan yn deillio o'r un gwreiddyn cymhleth. Am fod Waldo Williams yn deall y gynulleidfa iau—yn fwy na hynny, yn uniaethu â hwy—yn fwy na hynny eto, yn eu *hadnabod*—gŵyr sut i addasu'r diwyg, ond nid yw'n newid y syniadau. Byddai hynny'n gwneud cam â'r plant. Yn wahanol i sawl bardd arall, y mae Waldo'n parchu'r plant yn ddigon i osgoi 'siarad wast' â nhw, ond, ar yr un pryd y mae'n gwybod sut i'w diddanu a sut i'w cyrraedd. Cyfeiriwyd eisoes at y gyfrol fach *Chwarae a Chân* sy'n cyfoesi â *Cherddi'r Plant* ac sydd, yn ei diwyg o leiaf, yn awgrymu ei bod yn anelu at blant o'r un math o oedran (er bod maint llyfr y ddau Williams yn fwy hylaw i blentyn). Pe byddai rhywun yn mynd ati i gymharu rhai o gerddi casgliad Waldo â cherddi'r gyfrol arall ar hap, a hynny heb wybod ymlaen llaw o ba gasgliad y deuent, credaf yn sicr y byddai modd dyfalu'n syth ai Waldo ai peidio yw'r awdur. Ystyriwch, er enghraifft, y gerdd hon:

Y FFORTIWN⁵⁰
 Hwyaden a thwrci,
 A dau fochyn bach;
 Yn gofyn eu ffortiwn
 I Nani y wrach.
 A dyma ddywedodd
 Yr hen wreigan hon;
 Gan edrych yn sarrug
 A'i phwys ar ei ffon:
 'Cei di, hwyaden felen,
 Dy fwyta i gyd
 Gan Sleio y Cadno—
 Ni wn i pa bryd.

⁴⁹ R. M. Jones, 'Waldo'r Cwmp a'r Farn', yn Damian Walford Davies a Jason Walford Davies (goln), *Cof ac Arwydd: Ysgrifau Newydd ar Waldo Williams* (Cyhoeddiadau Barddas, 2006), t. 64.

⁵⁰ Evans a Roberts, *Chwarae a Chân i'r Plant Lleiaf*, t. 19.

Ac amdanat tithau,
 Y twrci mawr balch;
 Yn llechu i'th ddisgwyl
 Mae'r blaidd—yr hen walch!

Dau fochyn bach prydferth
 Ydych chwi, bid siŵr,
 Mor dda wedi'ch berwi
 Mewn crochan o ddŵr!

'Rwyf fi am eich cadw,
 Y ddau fochyn tew;
 Caf edrych ymlaen
 Am swper go lew!

Ond cyn i'r hen Nani
 Gael gorffen ei chân;
 Fe neidiodd y twrci
 A'i thafu i'r tân.

Nid bwrw anfri ar gyfrol *Chwarae a Chân* na'r gerdd yw'r bwriad, oherwydd ni ellir tanbrasio ei chyfraniad wrth ddi-ddanu plant y cyfnod, ond nid oes modd dychmygu Waldo yn cyfleu darlun i blentyn o fyd mor wrthun, byd o fygythiadau mor gas a gweithredoedd mor greulon.⁵¹

Dro ar ôl tro, gwelwn yr un syniad o ddelfryd y cydweithio brawdol yng nghasgliad 1936. Dyma'r darlun sy'n cloi'r gerdd 'Enwau', lle y ceir 'gwas y gwcw' yn helpu gyda'r cywain gwair.⁵² Wrth drafod y gerdd hon, rhaid talu sylw i arloesedd ei ffurf hefyd. Eto, gan fod y bardd ym myd y plentyn, gall gydymdeimlo â sut y mae idiomau iaith yn gallu eu drysu'n llwyr, a dyma lunio yn 'Enwau' gerdd-cwestiwn sy'n cyfrannu at sefydlu traddodiad o lunio 'cerddi-cwestiwn' i blant yn y Gymraeg a ddatblygwyd yng ngwaith beirdd fel Tudur Dylan Jones, Meirion MacIntyre Huws ac eraill, lle y mae'r bardd yn cymryd y cwestiynau y bydd plant yn eu holi, ac yn benodol y cwestiynau sy'n codi o ddryswch ym meddwl plentyn rhwng y llythrennol a'r trosiadol.

ENWAU

Pryd mae'r gwcw'n gwisgo'i sgidie-a-sane?
 Pryd mae'r brain yn gwisgo'u bacse glas?
 A sut mae'r blodyn neidir
 Fyny fry ar glawdd y feidir
 Yn perthyn i sut hen greadur cas?

⁵¹ Ac er na ellir gwadu geirwiredd y darlun a geir yn 'Fy Ngardd' o'r un gyfrol (t. 20), lle y mae Siôn Rhew yn cael lle blaenllaw wrth iddo 'ddwyn y blodau hardd', mor wahanol yw darlun Waldo yn 'Y Garddwr' (*Cerddi'r Plant*, t. 21) a 'Blodyn a Ffrwyth' (*Cerddi'r Plant*, t. 23).

⁵² Williams a Williams, *Cerddi'r Plant*, t. 34.

Sut mae Mair a chymaint o friallu?
 Ydy'r cŵn yn clatsho'u bysedd i wneud stŵr?
 Ydy'r moch yn bwyta'u crafol?
 A oes rhywun a'r dail tafol
 Yn pwysu pethau weithiau i'r hen ŵr?

Dywedwch ydy'r nyddwr weithiau'n nyddu?
 Ac wedi iddo nyddu, pwy sy'n gweu?
 Welais i mo teiliwr Llundan
 Yn gwneud siwt erioed i undyn,
 Ond cofiwch, falle'i fod e' ar y slei.

Pam na fentra'r gwyddau bach i'r afon?
 Rhag ofn hen was y neidir, falle'n wir.
 Fe ddylai'r brenin brale
 Dalu milwyr am ei ddal e'—
 Mae digon o ddail ceiniog yn ei dir.

Pryd mae Jac y rhaca'n cael ei wair mewn?
 'Thâl hi ddim i'w adael nes bo'n llwyd.
 Anodd lladd â'r ddalen gryman
 Ond bydd gwas y gwcw yma'n
 Helpu cywain, a daw'r llyffant mâs â'r bwyd.

Camp Waldo yw gwisgo'i syniadau mewn dillad addas, boed hynny drwy holi cwestiwn perthnasol, neu drwy ail-adrodd bachog, rhythmig, neu drwy chwarae ar sŵn geiriau. Mewn cerdd fel 'Pitrans-Patran' y mae'n swyno'r glust yn llwyr â dyfais gyfareddol, syml, sef pâr o eiriau onomatopeaidd: 'pitran patran'. Defnyddia'r un ddyfais yn amlwg yn y gerdd 'Clatsh y Cŵn' ('Clatsh, clatsh, clatsh, clatsh, / Clatsh y cŵn')⁵³ ac eto yn un o'r cerddi nas cynhwyswyd yn y casgliad terfynol, sef 'Cân y Fegin',⁵⁴ sy'n dechrau'n bert iawn:

Wff wff wff
 Wffu wffu wffu
 Hwthu hwthu hwthu
 Chwythu chwythu chwythu

Y mae chwarae pellach â geiriau yn 'Pitrans-Patran', sef y cyfnewid cynnil rhwng 'y to' a ailadroddir sawl gwaith ac yna'r 'to' fel talfyriad o 'eto' a ddaw yn annisgwyl ar ddiwedd y gerdd, gan roi boddhad yn y syrpreis. Ond â'r gerdd ymhell y tu hwnt i'r triciau a'r patrymau sŵn hyn, gan gyflwyno i ni drachefn lun o'r gymdeithas ddelfrydol, deg, lle y mae lle i bawb, a lle pawb ar yr un lefel.⁵⁵

⁵³ Ibid., tt. 28–9, 38.

⁵⁴ Gw. papurau E. Llwyd Williams yn y Llyfrgell Genedlaethol (LIGC 20882C).

⁵⁵ Y mae'n werth darllen ymateb D. Tecwyn Lloyd i'r gerdd hon yn ei ysgrif, "'Yn Olau Gan Lawenydd'", yn Nicholas (gol.), *Waldo*, tt. 64–5.

PITRAN-PATRAN⁵⁶

'R wy'n gorwedd yn y gwely,
A chwsg ymhell ar ffo.

'R wy'n clywed y glaw yn pitran-patran
Ar hyd y to.

'R wy'n caru meddwl heno
Fod pobun hyd y fro
Yn clywed y glaw yn pitran-patran
Ar hyd y to.

Mae'r brenin yn ei balas
Ac ym Mhenllwyn mae Jo,
Yn clywed y glaw yn pitran-patran
Ar hyd y to.

Mae merched bach y sipsiwn
Sy'n aros ar y tro
Yn clywed y glaw yn pitran-patran
Ar hyd y to.

Mae Darbi yn y stabal
A'r pedair buwch a'r llo
Yn clywed y glaw yn pitran-patran
Ar hyd y to.

Mae Carlo yn ei genel
A'r hwyaid bach dan glo
Yn clywed y glaw yn pitran-patran
Ar hyd y to.

Mae'r llygod yn y llafur—
Pob peth ble bynnag bo
Yn clywed y glaw yn pitran-patran
Ar hyd y to.

Clywed y glaw yn pitran-patran
Mae pobun trwy y fro,
Pitran-patran, pitran-patran,
Y glaw yn pitran-patran 'to.

⁵⁶ Williams a Williams, *Cerddi'r Plant*, tt. 28–9.

Dechreuwyd y rhan hon o'n trafodaeth drwy edrych ar gerdd gyntaf Waldo yn y casgliad, sef 'Y Morgrugyn'; cawn gloi ein sylwadau drwy roi'r gair olaf i'w gerdd olaf: 'Y Gwynt'.⁵⁷

Y GWYNT

Clywais ei ru
 Yn y simne'n y nos,
 Clywais ei su
 Yn y brwyn ar y rhos;
 Clywais ei sgrech
 Yn yr eithin mân,
 Ni chlywais ei drech
 Am chwibanu cân.

Beichio wnâ'r fuwch
 A breffu wna'r llo,
 A'r ceffyl fe'i clywch
 Yn gweryru ar dro;
 Mewial wnâ'r gath
 A chyfarth wna'r ci,
 Mae i'r gwyntoedd bob math
 O leisiau di-ri.

Mae miloedd 'rwy'n siwr
 Ohonynt i gyd,
 A'u Meistr a'u gyr
 I bedwar ban byd.
 Ant wrth ei gais
 Dônt yn ôl tua thre,
 Mae pobun â'i lais
 Ac mae pobun â'i le.

Yn union fel gyda'r morgrug, y mae'r gwyntoedd hefyd yn eu miloedd yn perthyn i'w gilydd. Y maent yn ateb yr un alwad, ac yn y pen draw yn tynnu yn ôl tua'r un dref. Nid oes un yn bod ar draul y llall, ac nid oes ffin rhwng yr un dim. Fel gyda'r fi sy'n arswydo meddwl amdano'i hunan, a'r fi sydd yn ei hanfod yn 'gyntedd maith', y mae llais y gwynt yn un â lleisiau'r greadigaeth, a phob elfen yn eco o'r elfen nesaf. Y plwyf yw'r byd. Y byd yw'r plwyf. Y mae sgrech, y mae cân. Y mae amrywiaeth. Ac os oes Meistr, mae'n feistr cyfannol, teg, un sy'n sicrhau bod gan bobun ei lais, a phobun ei le.

⁵⁷ Ibid., t. 42. Yn ei erthygl 'Waldo Williams: "Holi'n Hir yn y Tir Tywyll"', yn Davies a Davies (goln), *Cof ac Arwydd*, t. 162, cyfeiria M. Paul Bryant-Quinn at 'arwyddocâd y drefn a ddewisodd ar gyfer *Dail Pren*, a bwrw bod trefn benodol i'r cerddi'. O ran *Dail Pren*, manteisiaf ar y cyfle i grybwyll ei bod hi'n werth nodi mai'r gerdd 'Adnabod' a ddaw, i bob pwrpas, yn union yng nghanol y casgliad; ac ar yr un pryd, gan fod y cerddi wedi eu rhestru yn y tudalen cynnwys yn nhrefn y wyddor, hon yw'r gerdd gyntaf a enwir. Anodd yw llai na pheidio â gweld yn hynny arwyddocâd arbennig, ac yn ddi-os y mae lle i drafodaeth bellach ar sawl agwedd ar drefn y cerddi. O ran *Cerddi'r Plant*, ni fynwn lwytho'r drefn â'r un pwysigrwydd, ond y mae'n (gyd?)-ddigwyddiad twt fod y gerdd gyntaf a'r olaf yn cyffwrdd â'r un syniadaeth.

Y mae galw am fardd mawr i allu cyflwyno'r weledigaeth gyfannol hon i'r plentyn lleiaf.
Un o'r beirdd prin hynny yw Waldo Williams.

Caerfyrddin

MERERID HOPWOOD